

Gair bach Bethlehem 20



www.bethlehem.cymru

(trydar) @GweBethlehem

Gwaelod-y-garth

Cyfnod y 'Covid-19' – rhif 20 2020 (Sul Medi 13)

(Arbedwch inc a phapur! Peidiwch ag argraffu hwn – dim ond ei ddarllen ar-lein.)




Ail agor Bethlehem

Deuwn yn dyrfa dawel - yn rhesi
Ar risiau y capel.
Oglau "Jif" ac oglau "gel",
Yn ddeugain - yn ddiogel.
Rhys Powys



Golygfeydd o Fethlehem Bore Sul, Medi 13, 2020

Rhagor o luniau ar dudalennau 5, 6 a
7 ynghyd ag adolygiad o'r trefniadau
ar y bore cyntaf yn ôl yn y Tŷ Cwrdd



Yr Oedfa nesaf: Y Parchedig Aled Edwards Bore Sul, Medi 20 am 10.30

(Rhaid fydd gwisgo mwgwd. Hefyd
rhowch wybod i Rhodri-Gwynn eich
bod yn bwriadu mynychu)

NEWYDDION



Croeso mawr i Megan Elwy!

Daeth **Megan Elwy John** i fewn i'r byd ar frys bore dydd Mercher 9^{fed} o Fedi. Merch fach i Owen a Lois, chwaer fach i Elis lolo a'r wyres gyntaf i Gwyn a Marian Roberts, Rhydlafer ac i Mair a Dylan John, Llysaen.

Nain a Taid, a Mamgu a Dadcu wedi gwirioni'n llwyr wrth gwrs. Felly hefyd Elis lolo, fel y gwelwch o'r llun ar y dde.



Cydymdeimlad

Anfonwn ein cofion at deulu Ffwrnes Blwm – Rhian wedi colli nai, a'r plant wedi colli eu cefnder, Gruff Owen o Fangor. Roedd Gruff yn 61 oed ac yn fab i Gwen, chwaer y diweddar Ddr Dafydd Huws.

Cofiwch bod oedfa'r Sul diwethaf i'w chael ar-lein o hyd.

(Diolch yn arbennig i Wyn Jones am ei recordio a'i throsglwyddo i'r we.)

Dyma'r dolenni i'w chyrraedd:

<https://youtu.be/Zhhwp9V7f78>

neu

https://www.youtube.com/watch?v=Zhhwp9V7f78&feature=youtu.be&fbclid=IwAR2qnc-2vFZbeavnAzcx9VbEoRloRDJJCaMuvHEwvP5sQzEI_mU68JAma0



(Y gobaith ydy y gallwn ddangos pob un oedfa yn ei thro. Felly os nad ydych mewn sefyllfa i fynychu, cewch gyfle i ymuno wedi hynny. Fe ddaw 'linc' i'ch e-bost tua'r dydd Llun.)

Yr Ysgol Sul yn parhau ar-lein gan ddechrau ar Fedi 20^{fed}

Oherwydd y cyfyngiadau presennol ni fydd yr Ysgol Sul yn cwrdd ym Methlehem ar hyn o bryd ond byddwn yn dal i gynnal Ysgol Sul rhithiol am 10.30 bob bore dydd Sul gan ddechrau ar yr 20^{fed} o Fedi. Yr un fydd y linc bob dydd Sul am 10.30 ac y mae croeso i unrhyw un ymuno da ni.

<https://us02web.zoom.us/j/71466343537?pwd=M2Nla2F3YWU3ZmJDZWNUdDd3M3ZCUT09>

Rhif adnabod: 714 6634 3537

Cyfrinair: Bethlehem

Byddwn yn cynnal Cwrdd Diolchgarwch rhithiol eleni ar 11^{eg} o Hydref ac fe fydda i'n anfon at bob un ohonoch chi yn y man **i ofyn i chi recordio darn ar gyfer y fideo** a fydd yn cael ei ddarlledu ar sianel *YouTube* Bethlehem.



Gobeithio y byddwn yn medru dychwelyd at yr *hen drefn newydd* cyn bo hir, ond yn y cyfamser rwy'n gobeithio gweld cymaint ohonoch a phosibl bob bore Sul o'r 20^{fed} ymlaen.

Heulwen Jones heulwen@btinternet.com 07779 360614



Sdim dwywaith roedd cael dychwelyd i gwrdd yn ein Tŷ Cwrdd fore Sul diwethaf yn destun llawenydd a diolch, a diolch i bawb a fu'n paratoi'r capel fel ei bod yn bosib. Roedd hi'n braf gweld pawb a ddaeth - er bod ambell un yn anoddach i weld lan sha'r entrychion yn y galeri! A diolch i'r dechnoleg diweddaraf, gobeithio bod pawb a welodd yr oedfa adref wedi teimlo'u bod nhw'n rhan o'r gwmniaeth a gasglodd ynghyd - yn rhan o'r Teulu. Dwi'n tybied, er mor rhyfedd o'dd cwrdd heb ganu, a heb sgwrsio rhwydd ar ddiwedd yr oedfa, bod pawb wedi mwynhau, ac yn ddiolchgar i fod nôl, a diolch am hynny.

Ie, diolch, y gair bach pwysig hwnnw, ac yn rhyfedd iawn gair sy' wedi cael llwyth o sylw yn ein cylchgronau Cristnogol dros y misoedd diwethaf 'ma. "Diolch" yw testun y cylchgrawn "Cristion" cyfredol, ac y mae'n llawn o anogaeth Paul (yr Apostol nid y Beatle hirwallt!) "ymhob dim rhowch ddiolch."

Ystyr diolch yn ôl Geiriadur y Brifysgol yw "datganiad i gydnabod neu werthfawrogi rhyw fudd, cymwynas neu ffafr a dderbyniwyd." Mae'r plant llawen o Fadagasgar ar flaen y Tyst siŵr o fod yn ddiolchgar am gymwynas Ymgyrch yr Annibynwyr er budd eu hiechyd ar yr ynys dlawd honno. Ac ma' diolch am iechyd a'r Gwasanaeth Iechyd wedi bod yn thema gyson yn ystod cyfnod y Cofid, a gallwn ni ymfalchïo a diolch ein bod yn byw yng Nghymru o dan drefn a gychwynnwyd gan Gymro nôl ym 1948. Byddai'n hanes ni'n wahanol iawn pe bawn ni'n byw yn yr Yemen, byddai'n anodd iawn diolch am Wasanaeth Iechyd, achos i bob pwrpas, yno, does na'r un. Fe'i chwalwyd gan ryfel. Yn Sana'a, dinas sy'n deilchion bellach, un doctor oedd ar ôl i edrych ar gleifion Cofid nes i Medicins Sans Frontier gyrraedd rhyw bythefnos yn ôl.

Ond nid yr Yemen yn unig sy'n wynebu'r hunllef yma. Yn Syria, Somalia, De Swdan, Congo ac Affganistan ma' teuluoedd ac ymgeiswyr lloches a ffoaduriaid yn wynebu sefyllfaoedd tebyg. Diolch i'r drefn ma' Cymorth Cristnogol ac elusennau tebyg yn gwneud eu gorau glas i newid y sefyllfa, yn darparu popeth o ddŵr glân, adnoddau i weithwyr iechyd, a bwyd a maeth i atal newyn mewn ardaloedd sydd wedi dioddef o'r feirws a rhyfel. Diolch amdany'n nhw. Elusennau yn gwneud gwaith llywodraethau.

Ac o sôn am lywodraethau, beth am ddiolch i Lywodraeth San Steffan, mae'n rhaid bo nhw'n haeddu diolch am yr hyn mae nhw'n danfon i'r Dwyrain. Ma' nhw'n ymwybodol iawn o sefyllfa Yemen, cymaint felly, fel ei bod nhw'n gwerthu a danfon awyrennau ...elusennol? Na, Awyrennau Rhyfel! Ac i ble? I Sawdi Arabia. Ac yn lle bydd yr awyrennau yma'n cael eu defnyddio? Ie, yn yr Yemen, lle mae dros 20,000 wedi'u lladd yn barod, ac 16 Miliwn yn llwgu. Diolch San Steffan? Dim diolch!

Ond sdim iws hala awyren heb beilot, ac yn lle mae'r rheini'n cael eu hyfforddi? Yma, yng Nghymru, yn Llanbedr, Sir Feirionnydd, nid nepell o Gapel Salem. Beth fydde gan Sian Owen, Ty'n y Fawnog, ac Ifan Edward Lloyd a Laura a'r gynulleidfa fach yn y tŷ cwrdd hwnnw i'w ddweud wrth Lywodraeth San Steffan bell tybed? Diolch? Na, dim diolch.

Wrth i Sian sefyll yn nrws Capel Salem, mi fydde hi'n clywed rhu peiriannau'r awyrennau ym mhen isa'r cwm. Fydde hi ddim yn gallu eu gweld oherwydd y bryniau, ond tybed na allwn ni a Sian eu gweld yn ei siôl?

Trydydd ar ddeg neu beidio, beth oedd yn ffodus am Fedi 13eg oedd fod ein Tŷ Cwrdd ni ar agor ac felly gyfuwch â'r addewid. Bu'n Dŷ-lle-na-chewch-chi-gwrdd am hanner blwyddyn. Braf iawn oedd llawen gwrdd â hen gyfeillion Sul diwetha'. Bethlehem, wrth gwrs yw'r enw. A chawsom ein atgoffa o hynny wrth i Delyth ganu'r Alaw Gymreig 'Awn i Fethlem' ar yr organ.

Mae enwau capeli yn ddiddorol; lawer ohonyn nhw yn enwau Beiblaidd ac eraill yn dweud rhywbeth am genhadaeth yr eglwys, er enghraifft capel 'Hope' Pontarddulais (sy bellach yn 'Hope/Siloh', a dau gapel wedi cyfuno). Dyna i chi wedyn gapel 'Providence' yn Llangadog a chapel Harmoni yn Abergwaun. 'Rhagluniaeth' oedd enw un o gapeli'r Annibynwyr yn ardal Abertawe, capel a ddiflannodd ers blynyddoedd lawer. Mae 'Noddfa' yn enw gweddol gyffredin ac mae sawl 'Gorffwysfa' ['Gorphwysfa' yn Ffair Rhos ac yn Rhosgadfan]. 'Paradwys' yw'r capel yn Llanallgo ar Ynys Môn.

Yr enw odiaf a welais i, nid ar gapel ond ar eglwys yn ardal y Tŵr yn Llundain yw 'St. Andrew-by-the-Wardrobe', wedi ei enwi am fod adeilad y *Royal Wardrobe* gerllaw lle cedwid dillad milwrol a heraldri'r Tŵr. Pa enwau eraill ar gapeli a dynnodd eich sylw chi tybed, naill ai am ei hynodrwydd neu am eu addasrwydd?



Mae Tŷ Cwrdd a Hen Dŷ Cwrdd yn britho hanes ein hadeiladau, yn arbennig addoldai y carfannau ymneilltuol – y Crynwyr, yr Undodiaid, y Bedyddwyr a'r Annibynwyr – a hynny'n deillio o'r ffaith mai mewn tai annedd y byddai'r addolwyr yn cyfarfod cyn codi capeli a thyrrau a themlau. Yn Llanbryn-mair, byddai'r gynulleidfa yn cyfarfod i addoli mewn ysgubor flynyddoedd lawer cyn codi'r Hen Gapel yn 1739. Dyna esbonio pam fod Dr Iorwerth C. Peate wedi cyfeirio yn ei soned [adeg dathlu dau canmlwyddiant yr Hen Gapel at "ysgubor cynaeafau'r ysbryd byw"]. Dros y blynyddoedd, er dyddiau'r Eglwys Fore a'r patrwm apostolaidd, mae'r syniad o addoli mewn tŷ yn bod a hynny weithiau am fod yn gynulleidfa yn fach neu oherwydd erledigaeth yr awdurdodau – y Rhufeiniaid yng nghyfnod y Testament Newydd (Actau 1:13, ! Corinthiaid 16:19, Rhufeiniaid 16:3, Colossiaid 4:15) – hyd at gyfnod y Comiwnyddion yn China a Rwsia heddiw.

Tŷ Cwrdd. Mae'n ddelwedd gynnes. A'r hanfod yw ein bod ni'n dod at ein gilydd i drafod ac addoli Duw, er gwyched y byd "rhithiol".

Beth am gyfrannu i'n rhifyn nesaf?

Ymhen y mis y bydd hynny – felly mae gennych ddigon o amser i feddwl amdano!


Deunydd erbyn Hydref 14.

Anfonwch air at Ifan Roberts

tycnau@aol.com

07761826977

Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu ar hyd y misoedd, mewn llun neu air.





(Uchod) Dyma'r rhai oedd yn yr oedfa gyntaf, y Sul diwethaf. Gan eu bod wedi eu gwasgaru o gwmpas yr holl adeilad (*diolch i'r ddau stiward trefnus*) roedd hi'n amhosib i unrhyw un camera ddal pawb gyda'i gilydd – felly mae yma gip drwy lygaid 4 ffôn symudol. Ymddiheuriadau nad ydy pob delwedd mor siarp â'i gilydd. Gyda lwc, rydych chi gyd yno'n rhywle'n y rhifyn hwn, rhai ohonoch mwy lled-rithiol na'r lleill! Dros y tudalennau nesaf, fe gewch ragor o luniau, ynghyd ag adroddiad yr Ysgrifennydd am y drafodaeth gafodd y Diaconiaid ar sut y bu pethau a sut gall pethau fod yn y dyfodol agos.



Cynhaliwyd Cwrdd Diaconiaid (ar Zoom) ar fore Llun y 14eg o Fedi 2020, yn dilyn cynnal yr oedfa gyntaf yn ôl yn y capel ar Sul y 13eg o Fedi. Prif fwriad y cyfarfod oedd adolygu yr hyn a wnaethpwyd er sicrhau bod modd cynnal oedfa yn y capel bryd hynny, ac hefyd gweld a oedd yna bethau y gallid gwella arnynt ar gyfer oedfaon y dyfodol.

Dwi'n siŵr bod pawb a fynychodd yr oedfa yn teimlo'n betrusgar cyn cyrraedd y capel, a thra gwahanol oedd cael eich cyfarch gan "stiwardiaid" mewn siacedi melyn a gorchudd wyneb wrth y drws. A dod tuag at ddrws y capel o gyfeiriad y llwybr yn hytrach na'r grisiau (dyna'r ffordd i ymadael ar ddiwedd yr oedfa) oedd y gofyn.



Yna, er y buasai pawb yn gallu dod o hyd i'w seddi yn ôl yr arfer, 'roedd rhaid cael eich tywys i'ch sedd fel eich bod yn gallu cyfarwyddo â pha sedd oedd ar agor a pha sedd oedd ar gau, er parchu'r rheol "dwy fetr". Un fan hyn, dau fan draw – rhai ar lawr y capel, eraill yn y galeri – dyna'r drefn!

'Roedd diheintydd yn y cyntedd wrth y drwsau mewnol, a rhybuddion am Cofid-19 ar yr hysbysfwrdd. Hefyd ar y pared yr oedd copi o'r "Asesiad Risg" a fu'n gyrru'r holl drefniadau a fu'n rhaid eu cwblhau er sicrwydd cydymffurfio a rheoliadau Llywodraeth Cymru ar ailagor mannau addoli. 'Roedd "Caniadau Ffydd" wedi eu clirio o'r silffoedd, ac nid oedd Beibl i'w weld yn yr un sedd o fewn y capel.

Fe glywyd tinc yr organ wrth agor a chloi'r gwasanaeth, ond chwithig iawn oedd peidio codi i ganu a chlywed y pedwar llais yn asio'n un mewn cytgord perffaith. Yr un modd rhwystredig oedd peidio cael llafarganu Gweddi'r Arglwydd yn ôl ein harfer, na chael cyd-ddarllen o'r Ysgrythur.

Bu i hyd yn oed Delwyn Sion, tra'n arwain yr oedfa, gyfaddef ei fod braidd yn nerfus o gyflwyno ei sylwadau mewn amgylchiadau tra gwahanol i'r hyn yr oeddem i gyd mor gyfarwydd a nhw dros y degawdau.



A beth am yr adolygiad ac unrhyw welliannau i'w cynnig?

- Yn gyntaf, cytunwyd y byddai'n briodol i'r cennad fod yn y pulpud yn hytrach nag yn y Set Fawr, a hynny er sicrhau bod y gynulleidfa yn y galeri yn gweld ac yn clywed yn well.
- Eto o ran mynychwyr y galeri byddid yn ystyried priodoldeb rhoi canllaw ar ran isaf y grisiau yn arwain tuag at y fan honno, ac hefyd yn gweld a fyddai modd ychwanegu at yr uchel-seinyddion o fewn y capel.
- Awgrymwyd y byddai cael cyfnod o dawelwch yn ystod y weddi yn gymorth i fyfyrion fwy dwys bryd hynny.
- Awgrymwyd hefyd y dylid ystyried darpariaeth y tu allan i ddrws y capel ar gyfer cyfnod pan fydd y tywydd yn troi'n wlyb.

Byddwn yn parhau a'r arfer o geisio gwybodaeth ymlaen llaw am fwriad yr aelodau i ddod i oedfa ar y Sul, a hyn wrth reswm yn sgil y cyfyngu ar y niferoedd y gallir eu cynnwys yn yr adeilad ar unrhyw adeg (fe gofiwch mai lle i 50 a ganiateir dan y cyfyngiadau presennol). Bydd cofnod o'r presenoldeb yn cael ei gadw am gyfnod, eto i gyd-ymffurfio â'r gofynion.



Mwgd y tro nesaf

Er i rai o'r gynulleidfa wisgo gorchudd wyneb o fewn y capel bore Sul diwethaf, nid oedd yn orfodol i wneud hynny.

OND o ddydd Llun y 14eg o Fedi 2020, daeth rheoliadau newydd i rym ac **fe fydd yn rhaid i bawb ohonom wisgo gorchudd wyneb o fewn y capel o'r Sul nesaf ymlaen**. Pawb, hynny yw, ond arweinydd yr addoliad, oherwydd daeth gwybodaeth ar y 15fed o Fedi oddi wrth Llywodraeth Cymru fel a ganlyn:-

"Ar Fedi 15, fe gyhoeddodd Llywodraeth Cymru y gallir ei ystyried yn "esgus rhesymol" i arweinydd addoli dynnu'r gorchudd wrth arwain



yr oedfa, ond iddynt gymryd camau digonol eraill megis aros 2 fetr i ffwrdd o bawb arall ar bob adeg a/neu gwisgo feisor.

Noder nad yw'r Rheoliadau eu hunain yn cynnwys yr "esgus rhesymol" hwn, felly dylid cynnwys unrhyw benderfyniad i'r arweinydd beidio â gwisgo gorchudd wyneb tair haen, ac unrhyw gamau eraill a gymerir i liniaru hynny, yn asesiad risg yr eglwys wrth drefnu oedfa."

Yr Ysgol Sul:

Fel y gwelwch mewn rhan arall o'r "Gair bach", bydd yr Ysgol Sul yn parhau i gyfarfod yn rhithiol dros yr wythnosau nesaf yma, dan ofal Heulwen Jones, a mawr ein gwerthfawrogiad o'i pharodrwydd hi, a'r rhieni, yn sicrhau presenoldeb y plant i'r drefn wahanol. Ar Sul yr 11eg o Hydref 2020, bydd yr Ysgol Sul yn paratoi Gwasanaeth Diolchgarwch Rhithiol ar ein cyfer, ac felly ar Sianel deledu Bethlehem yn unig y darlledir yr oedfa honno.

Gair bach Bethlehem:

Trafodwyd dyfodol "Gair bach Bethlehem", gan gydnabod ei bwysigrwydd fel cyfrwng cyswllt, y gwerthfawrogiad o'i gynnwys, a'r gwaith arbennig ar ran y Golygydd, Ifan Roberts, yn ei gywain yn drefnus dros 19 o rifynnau ers dechrau'r clo ym mis Mawrth 2020. Cafwyd seibiant haeddiannol dros fis Awst, a'r rhifyn hwn fydd yr ail rifyn i'w gyhoeddi ym mis Medi (rhif 20). Yn dilyn ailagor y capel ar y Sul, cafwyd cydsyniad y byddid yn amcanu cyhoeddi'r "Gair bach" yn fisol dros y cyfnod nesaf yma. Petai'r amgylchiadau yn newid eto yna gellid ail-ystyried y penderfyniad hwn – ond fel gyda phob cyhoeddiad, mae'n rhaid cael cynnwys, a dyna yn y pen draw fyddai'n lliwio'r drafodaeth bryd hynny.

Ac i gloi...

Diolch ar eich rhan i bawb yn ddiwahân, sydd wedi gweithio hynod o galed dros y cyfnod clo er sicrhau bod llais a llun Bethlehem, Gwaelod-y-garth, yn parhau i gael ei weld a'i glywed serch bod yr adeilad ei hun wedi bod ar gau cyhyd.

Oni bia fod unrhyw newid pellach yn y rheoliadau o du Llywodraeth Cymru gobeithiwn barhau i gynnal gweddill yr oedfaon yn y capel o Sul i Sul.

Rhodri-Gwynn Jones, Ysgrifennydd Bethlehem



Tydi hedfan a fi ddim yn bartneriaid naturiol. Sefyllfa ryfedd o gofio fy mod wedi hedfan o leia dair gwaith rownd y byd. Hwyrach bod hynny oherwydd i mi orfod cychwyn ar fy mhrofiad o hedfan drwy sefyll mewn awyren yr holl ffordd o St Petersburg i Moscow. Dro arall, bu gofyn ail gyfeirio awyren oedd ar ei ffordd i Nice er mwyn iddi lanio ym Mharis wedi i mi lewygu yng nghwmni hanner llond awyren o ddoctoriaid oedd ar y ffordd i gynhadledd feddygol yn ne Ffrainc. Mae cael dau ddoctor i gytuno ar beth sydd orau i'w wneud bron mor amhosib a chael dau economegydd i gytuno. Roeddwn i ar fin marw yn ôl un, tra bod y llall o'r farn fy mod wedi bwyta rhywbeth oedd wedi codi cyfog arnaf nôl yn maes awyr Bryste. Teimlad anffodus ydi deffro i glywed y peilot yn cyhoeddi "We have an emergency with one of the passengers, and have been given clearance to land immediately in Charles de Gaul in Paris." Roeddwn i ddigon deffro i deimlo'r don o siom gan y gweddill o'r teithwyr oedd wedi gobeithio cael hwyl yn Nice, Cannes ,neu San Tropez.

Mae unrhyw oedi mewn maes awyr yn straen, yn arbennig os ydych chi ym maes awyr Moldova a darganfod bod y gwasanaeth i Heathrow wedi ei ganslo. Holi hwn ar llall a darganfod bod Taron Airways yn gwneud hyn yn rheolaidd ac mai yr unig ateb oedd cael casgliad o arian parod o blith y teithwyr i dalu am y "tanwydd". Gadael a chyrraedd Llundain a sylweddoli uwchben y brifddinas mai i Stanstead yr oedd yr awyren yn hedfan er bod ceir pob un o'r teithwyr yn Heathrow. Mae'n debyg bod hi hanner y pris i lanio ochr ucha' i'r M25 o'i gymharu a Hounslow.

Darllen yn ddiweddar bod un o wleidyddion Rwsia wedi mynd yn sâl wrth deithio ar Bratsk Air o Tomsk i Omsk yn Siberia, a bod 'na rai'n credu ei fod wedi ei wenwyno. Y tro y bum i ar yr un daith fe gyneuoedd chwe



gwraig dân yn y caban drwy oleuo stôf "Primus" stove" i goginio brecwast. Roedd y merched wedi bod ar y fodca trwy gydol y daith ac yn anelu am "benwythnos plu" ym Moscow. Omsk oedd lle y llwyddwyd i lanio gyda phob un ohonon ni'n wlyb at ein crwyn wedi i'r peirianwaith atal tân ar fwrdd yr awyren ymateb i'r fflamau.

Dim ond unwaith erioed y llwyddais i gael "upgrade" a hynny wrth hedfan o Freetown Sierra Leone i Frwsel. Mae'n debyg bod hi'n hen arferiad yn Affrica i deulu estynedig y teithiwr fynd i'r maes awyr i ffarwelio. Pan gyrhaeddais i'r maes awyr, roedd 'na giw o unigolion oedd yn ymestyn am filltir a mwy o amgylch y lanfa gan nad oedd yna "dyrminial" i gysgodi o wres yr haul. Wedi dwy awr o chwysu a dim symud o gwbl ar y ciw, dyna swyddog yn galw am i'r gwir deithwyr gadarnhau eu bwriad i hedfan drwy ddangos pasbort.


"Your name is Owen?" gofynodd y swyddog "and you are Welsh I see. Do you know Michael Owen?" Roedd hi yn amlwg bod chwaraewr peldroed Lerpwl a Lloegr yn dipyn o arwr yn Ngorllewin Affrica. "Know him", medda finnau, "I am his father." Celwydd noeth, wrth gwrs, ond ymateb un oedd wedi hen flino ar sefyll mewn ciw heb unrhyw gysgod na diferyn o ddŵr. Weles i erioed y fath ymateb ar

wyneb unigolyn. Dyna fo'n gafael yn fy mraich tra'n cario's 'case' yn y llaw arall, a fy martsio heibio'r cannoedd yn y ciw, i fyny grisiau'r awyren, a'm tywys i'r chwith yn yr awyren, i seddi'r dosbarth cyntaf. "You sit there, Mr Owen, and please give my regards to your son. The best centre forward in the world." Beth o ni i fod i wneud?

Oes yna faddeuant?




A am Armstrong tro dwetha, B am – ac mae mwy nag un yn cystadlu am sylw: Barclay, Borg, a Bonhoeffer. Dietrich Bonhoeffer (1906-1945) sy'n cael sylw'r tro hyn.



Un o aelodau caredig Bethesda, Llangennech, Miss Davies, Yr Hendre, roddodd y gyfrol “The Cost of Discipleship” yn anrheg i mi yn 1974. Roedd am roi llyfr i mi yn anrheg Nadolig, a dyma'r un a ddewisais. Mae'r llyfr bellach yn cael ei ystyried yn glasur Cristnogol. *Nachfolge* yw'r teitl yn yr Almaeneg gwreiddiol, sef dilyn neu'r weithred o ddilyn. Yn y llyfr, sy'n seiliedig ar y Bregeth ar y Mynydd, mae Bonhoeffer yn esbonio beth mae dilyn Crist yn ei olygu iddo ef. Fe'i cyhoeddwyd yn 1937 pan oedd Natsiaeth ar gerdded, a'r Almaen dan Hitler yn symud yn nes at gyflafan yr Ail Ryfel Byd.



Ganed Bonhoeffer yn Breslau, yn yr Almaen. Roedd ei deulu'n fwy o ddyneiddwyr na chrefyddwyr. Roedd yn gryn syndod iddyn nhw pan gyhoeddodd ei fod am astudio diwinyddiaeth, ac yntau ond yn 14 oed. Dyna a fu. Cafodd ei ordeinio yn Eglwys Efengylaidd yr Almaen yn 1931. Cliciwch ar un o'r dolenni isod am hanes ei fywyd a'i wrthwynebiad i Natsiaeth, gwrthwynebiad arweiniodd yn y pen draw iddo gael ei garcharu a'i ddienyddio yng ngharchar Flossenbürg fis cyn i'r rhyfel ddod i ben yn 1945. Roedd yn 39 oed.



Y gyfrol arall o'i waith sydd yn fy meddiant yw “*Letters & Papers from Prison*”, llythyron gafodd eu smyglo o'r carchar. Dyma glasur dylanwadol arall gyda'i gwestiynau am swyddogaeth Cristnogaeth a'r Eglwys mewn byd oedd yn secwlaiddio'n gyflym. O'r gyfrol fach yma daw syniadau Bonhoeffer am “Gristnogaeth Ddigrefydd” (Religionless Christianity). Nid mater o achubiaeth yw crefydd i Bonhoeffer ond gweddi a gweithredu'n gyfiawn. Ewch i: <https://followingjesus.org/religionless-christianity/>

Diddorol oedd darllen mai yn Awst 1996 y cyhoeddodd awdurdodau'r Almaen nad oedd Bonhoeffer bellach yn cael ei ystyried yn fradwr. Roedd wedi'i ddienyddio am ei ran yn yr ymgais i ladd Hitler. I'r rhai sy'n ei weld fel arwr a merthyr Cristnogol mae hynny falle'n syndod.

“Cheap grace is the grace we bestow on ourselves. Cheap grace is the preaching of forgiveness without requiring repentance, baptism without church discipline, Communion without confession.... Cheap grace is grace without discipleship, grace without the cross, grace without Jesus Christ, living and incarnate.” (The Cost of Discipleship)

<http://www.dbonhoeffer.org/>

<https://tdbi.org/about/>

https://en.wikipedia.org/wiki/Dietrich_Bonhoeffer

<https://www.britannica.com/biography/Dietrich-Bonhoeffer>

Bron na ddwedech chi fod yr hen graig yna sydd uwchben Tŷ Cwrdd Bethlehem wedi bod yn adlewyrchu'r newidiadau welwyd dros y misoedd diwethaf. Fel hyn roedd pethau'n edrych tua'r Garth cyn y cloi, a hynny ar ôl cyfnod hynod o sych yn gynnar yn y Gwanwyn:



Weithiau'n dywyll

...

neu gyfnewidiol

...

weithiau'n fgythiol

...

ac ar dro'n fwyn!



Yna'r wythnos hon, y lliwiau hydrefol yn dychwelyd a sawl dyrnaid o gerddwyr yn mentro'r llwybrau tra bo pethau felly'n dal yn bosibl.

Trefn yr Oedfaon nesaf:

Mae Delyth Evans (Y Barri), Ysgrifennydd y Cyhoeddiadau, yn brysur ail-drefnu'r dyddiadur ar hyn o bryd. Gallwn gadarnhau'r canlynol hyd at ddechrau mis Tachwedd 2020:-



Medi:

20 Medi - Parchedig Aled Edwards (ym Methlehem)

27 Medi - Parchedig Aled Edwards(ym Methlehem)

Hydref:

4 Hydref - Delwyn Sion (ym Methlehem)

11 Hydref - Oedfa Ddiolchgarwch yr Ysgol Sul (Rhithiol –ar-lein, nid ym Methlehem!)

18 Hydref - Parchedig Glyn Tudwal Jones (ym Methlehem)

25 Hydref - Sul Adferiad dan ofal Wynford Ellis Owen (ym Methlehem)

Tachwedd:

1 Tachwedd - Delwyn Sion (ym Methlehem)

ODLAU'R GARTH 1

(Diolch i Martin Huws am gofio'r arwyr isod – ac i Rhys Powys am ei englyn ar y ddalen flaen)

I Carwyn James

Ni chest ti dy gydnabod
gan ddoethion sy'n gorachod
a llwyddest ti i osod stamp
ar gamp ryfeddol Llewod.

I Delme Thomas

Maeddu'r Crysau Duon, 1972

Ar borfa Parc y Strade
cyrhaeddest uchelfanne:
yn y lein ti o'dd y cawr.
Bu meddwi mawr am ddyddie.

I Scott Gibbs

Y cais yn erbyn Lloegr

Uchafbwynt mawr dy yrfa
sy'n hudo cynulleidfa:
yn chwimwth saethest ti fel bollt,
creu hollt mewn amddiffynfa.

I Gareth Edwards

Y cais i'r Barbariaid

Dy gais di yn ddihareb,
o law i law'n gywreindeb,
symudiad pert a ddaeth i ben.
Mae angen codi cofeb.

Martin Huws